GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION WYTHFED CYFARFOD AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 10FED GORFFENNAF 2007

LLEOLIAD: ATHROFA ADDYSG UWCH GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU (NEWI), WRECSAM

Yn bresennol:

Mal Davies (Cadeirydd)	Valerie Merriman
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Suzanne Nantcurvis
Ron Carrotte	Rosemond Nelson
Michael Edwards	Richard Parry Jones.
Ian Guy	Gareth Roberts
Anthony Hughes	Sarah Stockford
Angela Jardine	Jacky Tonge
Sue Jenkins	Gwen Williams
Nichola Jones	Peter Williams

Ymddiheuriadau:
Frank Bonello, Tim Cox, Elwyn Davies, Sheila Drayton, Gareth Jones, Goronwy Jones a Jane Setchfield

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Karen Evans	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Jo Harris	Swyddog Cymorth Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

1. Croeso a Materion Rhagarweiniol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i wythfed cyfarfod ar hugain y Cyngor a chadarnhaodd y câi'r cyfarfod ei gynnal yn ddwyieithog. Croesawyd yr arsyllwyr Sashi Sivaloganathan (Is-gadeirydd, Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr), Rosa Murray (Swyddog Proffesiynol - Prawf a DPP, Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) a Gerry Devlin (Uwch Swyddog Addysg, Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon). Estynnwyd croeso hefyd i'r bobl a oedd yn gwylio o'r oriel gyhoeddus.

1.2 Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith mai hwn, o bosibl, fyddai'r cyfarfod Cyngor olaf i rai o'r aelodau enwebedig. Diolchodd i'r aelodau, yr oedd rhai ohonynt yn aelodau'r Cyngor ers ei ddechrau yn 2000.

2. Datganiadau o Fuddiant

2.1 Nid oedd dim datganiad o fuddiant.

3. Gohebiaeth y Cadeirydd

3.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw at ei lythyr dyddiedig 25ain Mehefin 2007 at y Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg, a aeth gyda Chynllun Corfforaethol y Cyngor 2007-10 a'i Gynllun Gweithredol 2007-08, ac oedd yn ymdrin ymhellach â mater cynyddu Ffi Cofrestru'r Cyngor o 2008-09 ymlaen. Rhoddodd y llythyr fanylion gweithgareddau craidd y Cyngor a'r costau yr oeddent yn eu creu; materion annibyniaeth y Cyngor a'r arbedion maint nad ydynt ar gael i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru o'i gymharu â chynghorau addysgu eraill y DU. Ni chafwyd ateb hyd yma.

3.2 Yna cafodd yr aelodau adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd rhwng y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwyr, y Rheolwr Polisi a Chynllunio a Don Tyrer a swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau bod Mr Tyrer wedi bod yn cynorthwyo Steve Marshall, Cyfarwyddwr – yr Adran dros Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg, yn ei agenda gwella ysgolion trwy ddull tair lefel rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr AALlau ac ysgolion. Cafwyd digonedd o wybodaeth yn y cyfarfod ac ymddangosai fod yna gyfleoedd pendant i'r Cyngor chwarae rhan sylweddol mewn hybu elfennau o ddysgu ac addysgu, rhwydweithio proffesiynol ac arweinyddiaeth, yn unol â chylch gorchwyl y Cyngor i wella safonau dysgu ac addysgu. Rhagwelwyd y câi rhaglen y Cynulliad ar wella ysgolion ei lansio ym mis Awst/Medi 2007. Byddai'r Cyngor yn cael adroddiadau pellach maes o law.

3.3 Tynnodd un aelod sylw at y gwahoddiad a estynnwyd i'r Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg i gyfarfod â swyddogion ac aelodau'r Cyngor. Awgrymodd y gallai swyddogion gyfarfod â'r Gweinidog cyn gynted â phosibl. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod swyddogion y Cynulliad yn gweithio i drefnu hyn.

4. Cofnodion Drafft Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 3ydd Mai 2007

4.1 Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

Materion yn codi:

4.2 Cofnod 16.3: Materion Safonau Proffesiynol: Gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd am y wybodaeth ddiweddaraf ar recriwtio pobl leyg i 'eistedd' ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol. Dywedodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon)* fod ffurflen gais a meini prawf yn cael eu llunio ar gais y Pwyllgor Cofrestru, cyn gosod yr hysbyseb. Rhagwelwyd y byddai'r hysbyseb yn cael ei gosod yn y cyfryngau ym mis Medi 2007.

4.3 Tynnodd aelod arall sylw'r aelodau at y nifer fwy o bobl a fyddai ar gael i 'eistedd' ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol yn dilyn cwblhau'r broses enwebu ym mis Hydref 2007. Byddai'r broses ethol yn 2008 yn ychwanegu at y nifer eto. O gofio hyn, holodd yr aelod a oedd angen recriwtio aelodau lleyg ychwanegol. Esboniodd y Cadeirydd fod y nifer fechan o aelodau lleyg yn aml yn arwain at anawsterau gydag argaeledd wrth ffurfio Pwyllgorau. Sicrhaodd y Prif Weithredwr yr aelodau y byddai'r pwyntiau a godwyd yn cael eu hystyried. Er y byddai hyn yn sicrhau bod digon o aelodau ar gael i fod ar y Pwyllgorau yn y dyfodol agos, byddai yna fater i'w ystyried yn y dyfodol o ran nifer yr achosion y gallai aelodau eu 'clywed' a'r angen i sicrhau cysondeb yn y broses o wneud penderfyniadau. Câi'r materion hyn eu trafod yn y dyfodol.

5. Derbyn rhybudd o unrhyw faterion y mae'r aelodau eisiau'u codi mewn perthynas â'r eitemau Agenda 'Gwybodaeth' (21 i 26)

5.1 Ni roddwyd dim rhybuddion.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 5ed Mehefin 2007.

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn a dywedodd wrth yr aelodau y byddai pob mater, ond dau, yn cael sylw yn agenda'r cyfarfod.

6.2 Cofnod 2.3: Y Ddarlith Flynyddol: Atgoffwyd yr aelodau y byddai Estelle Morris yn traddodi'r ddarlith ar 1af Hydref 2007. Roedd cardiau post yn rhoi manylion byr am y ddarlith ar gael yn y cyfarfod, a byddent yn cael eu dosbarthu i'r bobl a oedd wedi dod i ddarlithoedd blaenorol. Byddai nifer o wahoddiadau'n cael eu rhoi i'r aelodau, ac fe'u gwahoddwyd i'w rhoi i'w cyfeillion a'u cydweithwyr. Y gobaith oedd y byddai'r ymateb i'r gwahoddiad i'r ddarlith gystal ag yn 2006.

6.3 Holodd aelod am ddiweddariad ar drafodaethau blaenorol ynglŷn â chynnal digwyddiad tebyg yn y Gogledd. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai trafodaethau pellach yn digwydd gyda chynrychiolwyr Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) ym mis Medi 2007. Y gobaith oedd cael cyfeiriad a fyddai'n gymorth i ddatblygu digwyddiad. Teimlai rhai aelodau'n gryf y dylid datblygu trefniadau ar gyfer y digwyddiad, gan dynnu sefydliadau eraill i mewn ar wahân i ADEW er mwyn cael cyfraniad.

6.4 Cofnod 2.9: Marc Safon: Tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r aelodau at lansio Marc Safon i asiantaethau athrawon cyflenwi, a argymhellwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2003. Disgwylid i gyhoeddiad am y trefniadau gael ei wneud ym mis Gorffennaf 2007 ac y byddai'r system efallai'n cael ei lansio yn 2008.

6.5 Nodwyd y cofnodion oedd heb eu cadarnhau.

6.6 Nid oedd dim materion yn codi.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Polisi 5edMehefin 2007

7.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn yn fyr, gan ddweud wrth yr aelodau y byddai'r holl faterion yn cael sylw yn agenda'r cyfarfod.

7.2 Nodwyd y cofnodion oedd heb eu cadarnhau.

7.3 Nid oedd dim materion yn codi.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru 12fed Mehefin 2007

8.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Gareth Roberts, Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Cofrestru.

8.2 Dywedodd wrth yr aelodau y byddai'r un eitem agenda i'w thrafod gan y Pwyllgor yn cael sylw yn agenda'r cyfarfod. Ychwanegodd fod yr ymarfer hunanasesu wedi arwain at drafodaeth arbennig o ddefnyddiol ynglŷn ag asesiad y Pwyllgor o'i berfformiad yn ystod y blynyddoedd blaenorol.

8.3 Nodwyd y cofnodion oedd heb eu cadarnhau.

8.4 Nid oedd dim materion yn codi.

9. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu 12fed Mehefin 2007

9.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Mike Edwards. Tynnodd sylw at yr adroddiadau archwilio mewnol cadarnhaol a gafwyd ynglŷn â gwaith y Cyngor ar ariannu Sefydlu a DPC ac ariannu DPP. Aeth ymlaen i ganmol gwaith y swyddogion, a oedd wedi arwain at y sicrwydd sylweddol gan yr archwilwyr mewnol. Esboniodd fod y swyddogion yn gweithio ar gynllun parhad busnes, a fyddai'n cynnwys trefniadau ymadfer wedi trychineb, fel yr argymhellir gan archwilydd mewnol y Cyngor.

9.2 Nodwyd y cofnodion oedd heb eu cadarnhau.

Materion yn codi:

9.3 Gofynnodd un aelod am eglurhad ar ddatblygu cynllun parhad busnes ehangach. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y wybodaeth sydd ar gael yn y papur *Cofrestr Risg* (GTCW 45/07) a oedd yn rhan o'r *eitemau er gwybodaeth.* Ychwanegodd fod swyddogion wedi datblygu cynllun drafft ar gyfer parhad busnes ac ymadfer wedi trychineb yn dilyn adroddiad archwilio mewnol ar ddiwedd 2005, ond eu bod wedi aros, am gryn amser, am gyfarwyddyd pellach gan yr archwilwyr cyn gallu rhoi gwedd derfynol i'r cynllun. Roedd y gwaith o ddatblygu'r cynllun ymhellach mewn llaw erbyn hyn, fel yr adroddwyd eisoes. Yn ogystal â'r trefniadau hyn, dywedodd y Prif Weithredwr fod strategaeth fanwl i ddelio â thrychineb TG yn bod ers peth amser. Roedd y Cyngor yn ceisio cyngor cynllunio ar olyniaeth ar hyn o bryd. Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad.

9.4 Argymhellodd y Dirprwy Gadeirydd y dylid cyfleu diolch y Cyngor cyfan i'r swyddogion am eu gwaith a oedd wedi arwain at archwiliad cadarnhaol iawn. Cytunodd yr aelodau.

9.5 Nid oedd dim materion yn codi.

10. Diweddariad ar Gofrestru, SAC a Sefydlu (GTCW 35/07)

10.1 Rhoddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) ddiweddariad ar y tri maes sy'n cael sylw gan y papur hwn.

Cofrestru:

10.2 Cwblhawyd casglu Ffioedd Cofrestru ar gyfer 2007-08 yn llwyddiannus yn ystod mis Mai 2007. Cyfanswm yr athrawon a gofrestrwyd gyda'r Cyngor oedd 36,543. Ar ôl casglu'r ffioedd, darparwyd i bob athro cofrestredig gopi o'i gofnod cofrestru, fel y gellid gwirio a newid lle'r oedd yn briodol. Cafodd pob pennaeth restr o'r athrawon yn ei ysgol a oedd wedi cofrestru gyda'r Cyngor, gyda gwahoddiad i gysylltu â'r Cyngor gydag unrhyw ymholiadau. Cafodd pob AALl restr o'r holl athrawon cyflenwi a oedd wedi cofrestru. Cafodd pob asiantaeth gyflenwi lythyr yn rhoi gwybod iddynt fod proses cofrestru flynyddol y Cyngor wedi cael ei chwblhau ac y gellid gwneud gwiriadau er mwyn sicrhau bod yr holl athrawon oedd wedi'u cofrestru gyda hwy wedi cofrestru gyda'r Cyngor am y flwyddyn i ddod.

SAC:

10.3 Dywedwyd wrth yr aelodau bod gwaith blynyddol y Cyngor i drefnu cofrestru'r holl athrawon sydd newydd gymhwyso a gâi SAC ym mis Awst 2007 ac a fyddai'n dechrau gweithio mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru o fis Medi 2007 ymlaen wedi gwneud cynnydd da. Roedd staff y Cyngor wedi ymweld â SAU i roi cychwyn ar y broses gofrestru gydag ANG, a oedd yn cynnwys cwblhau Ceisiadau am Ddatgeliad Manylach. Bu'r trefniadau'n llwyddiannus ac roedd 1,250 o Geisiadau am Ddatgeliad Manylach wedi cael eu trosglwyddo i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar ddechrau mis Mehefin 2007. Hyd yn hyn roedd 900 wedi cael eu dychwelyd, gan adlewyrchu amser gweithdroi gwell o lawer gan y Swyddfa. Roedd disgwyl i ryw 1,500 o ANG gofrestru, felly mae'r ffaith bod 1,250 wedi cofrestru hyd yma'n golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i gwblhau ei broses statudol yn brydlon.

10.4 Croesawodd un aelod yr adroddiad ac yn arbennig y gwelliant yn yr amser ymateb i geisiadau am Ddatgeliad Manylach. Nododd y byddai aelodau efallai'n disgwyl cael eu galw i 'eistedd' ar Bwyllgorau Ymchwilio i Safonau Proffesiynol ym mis Awst 2007, yn unol â chyfrifoldeb y Cyngor i ymchwilio i unrhyw enghreifftiau o ddatgeliad. Atebodd Hayden Llewellyn y disgwylid y byddai nifer debyg o achosion ag yr oedd y flwyddyn flaenorol. Dyletswydd y Cyngor oedd rhedeg ei broses ddisgyblu yn brydlon er mwyn galluogi unigolion, lle bo'n briodol, i ddechrau gweithio ym mis Medi 2007.

10.5 Roedd y Dirprwy Gadeirydd yn cofio trafodaeth flaenorol ynglŷn â sut y gallai'r Cyngor wneud athrawon yn fwy ymwybodol o'i swyddogaeth rheoleiddio. Awgrymodd ystyried ymweld â myfyrwyr ar ddechrau eu cwrs HAGA er mwyn eu paratoi ar gyfer proses cofrestru'r Cyngor ar ddiwedd eu cwrs. Atebodd Hayden Llewellyn y byddai angen ystyried y goblygiadau o ran adnoddau. Dywedodd y Prif Weithredwr y bwriedid datblygu'r maes hwn mewn cyfarfod â Phenaethiaid HAGA, gan chwilio'n arbennig am gysondeb â SAU o ran y gwiriadau a wneir at eu dibenion eu hunain. Gellid hefyd cynnal trafodaethau â Phenaethiaid HAGA ynglŷn â rhoi gwybod i fyfyrwyr, ar ddechrau eu cyrsiau, am swyddogaeth CyngACC ym maes addasrwydd.

10.6 Cwestiynodd aelod arall y broses o'i chymharu â'r broses a ddefnyddir gan Gynghorau Addysgu Cyffredinol eraill y DU. Dywedwyd wrth yr aelodau bod CyngAC yr Alban yn defnyddio'r un broses; byddai CyngAC Lloegr yn dechrau ym mis Medi 2007 gyda ffurflen hunan-ddatganiad a fynnai i'r unigolyn ddweud a oedd y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn dal gwybodaeth amdano. Roedd CyngAC Gogledd Iwerddon yn aros am ddeddfwriaeth a fyddai'n rhoi cyfrifoldeb iddo yn y maes hwn. Ychwanegodd Hayden Llewellyn fod athrawon yn gallu gweithio am fis heb gofrestru yn Lloegr.

Sefydlu:

10.7 Anfonwyd pum deg pump o dystysgrifau at athrawon a oedd wedi bodloni'r safon Sefydlu statudol erbyn Pasg 2007. Dylai'r canlyniadau ar gyfer tymor yr haf fod gan y Cyngor erbyn canol mis Awst a chât tystysgrifau eu hanfon yn briodol.

10.8 Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad.

11. Adroddiad ar y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol (GTCW 36/07)

11.1 Rhoddwyd i'r aelodau adroddiad cynnydd ar agweddau ar waith y Cyngor i sefydlu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol i athrawon yng Nghymru. Fe'i cyflwynwyd gan y Prif Weithredwr mewn pedair prif ran, sef: cynnydd ar y cynllun peilot Athro Siartredig; cynnig ar gyfer trefniadau llywio'r cynllun peilot Athro Siartredig gan y Pwyllgor Polisi; adroddiad ar gynnydd gyda chais y Cyngor i fod yn gorff siartredig; ac adroddiad llafar ar y ddau linyn cyngor olaf.

Cynllun Peilot Rhaglen Athro Siartredig:

11.2 Roedd y Cyngor wedi datblygu, fel rhan o'i Fframwaith Datblygiad Proffesiynol, raglen i athrawon yng Nghymru gael statws siartredig. Byddai cynllun peilot y rhaglen hon yn dechrau ym mis Medi 2007.

11.3 Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion rhaglen y modiwlau peilot, y darparwyr modiwlau a benodwyd a nifer yr athrawon yng Nghymru a oedd wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn y rhaglen beilot, nifer a oedd wedi cynyddu i 500 ers i'r papurau gael eu cyhoeddi. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr holl gyfarfodydd cwmpasu cychwynnol gyda'r darparwyr modiwlau wedi cael eu cwblhau a bod llythyr wedi cael ei anfon at yr holl athrawon a oedd wedi cofrestru eu diddordeb gan eu gwahodd i gysylltu eto. Byddai'r aelodau'n cael gwybod yng nghyfarfod y Cyngor ar 9fed Tachwedd 2007 am restr derfynol y bobl a fyddai'n cymryd rhan.

11.4 Rhoddwyd croeso i'r aelodau ofyn cwestiynau am yr adroddiad.

11.5 Roedd un aelod eisiau eglurhad manwl ar ddau bwynt: yn gyntaf, y broses a ddefnyddiwyd i asesu a dethol pobl i gymryd rhan yn y cynllun peilot ac yn ail, y ddarpariaeth i unigolion wneud modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg, gan yr ymddangosai fod llai o gyfle i wneud hyn. Sicrhaodd Hayden Llewellyn yr aelodau na ddisgwylid y byddai pob un o'r 500 a oedd wedi mynegi diddordeb eisiau cymryd rhan. Gwahoddwyd athrawon i ddewis modiwlau a oedd o ddiddordeb iddynt a byddai hyn yn ddull hidlo naturiol. Yn y bôn yr hyn a fyddai'n rheoli'r dethol fyddai cyfnod, lleoliad, pwnc a chymwysterau'r ymgeiswyr. Byddai swyddogion yn 'sifftio' y ceisiadau gan ddefnyddio gwybodaeth a gedwir ar y gofrestr i lywio'r broses a sicrhau bod nifer fawr yn cwblhau'r cynllun peilot. O ran y llwybr achredu, ar gais y darparwr, byddid yn gofyn i'r ymgeiswyr roi syniad o'u galluoedd yn nhri maes y safon. Dywedodd Hayden Llewellyn y gellid mabwysiadu'r broses hon ar gyfer y modiwlau 'a addysgir' pe teimlid bod angen.

11.6 Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd ynglŷn â mater darparu modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg, gan dynnu sylw'r aelodau at y trosolygon o'r cynllun peilot a roddwyd ar dudalennau 16 i 21 o Atodiad B. Gofynnodd yr aelod am ymrwymiad gan y Cyngor y byddai darpariaeth Gymraeg yn cael cefnogaeth gan y Cyngor pe bai galw amdani'n dod yn amlwg. Rhoddwyd yr ymrwymiad hwn gan y Cadeirydd a chan y Prif Weithredwr.

11.7 Bu trafodaeth ar yr adeg hon lle soniodd aelodau am bwysigrwydd sicrhau bod y broses dethol yn dryloyw ac yn deg; na ddylai diddordeb y bobl a oedd wedi mynegi diddordeb gael ei fygu pe na fyddent yn cael eu dethol i gymryd rhan yn y cynllun peilot ac y dylent gael eu hannog i gymryd rhan ar ôl i'r rhaglen, gobeithio, gael ei phrif-ffrydio. Mynegwyd pryderon y byddai 300 neu fwy o athrawon yn cael eu gwrthod a dylid ymdrin â hyn mewn modd sensitif, gan roi adborth pe byddai modd.

11.8 Nododd y Prif Weithredwr y sylwadau ac ychwanegodd y byddai'r cynllun peilot yn rhoi sylfaen i adeiladu arno, i ddysgu oddi wrtho ac i ganfod materion ymarferol y gellid gwella arnynt pan gâi ei brif-ffrydio.

11.9 Codwyd cwestiwn arall ynglŷn ag a fyddai efallai cyfyngiadau ar nifer yr athrawon a allai gymryd rhan yn y rhaglen bob blwyddyn, pe byddai'n cael ei phrif-ffrydio. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd mai bwriad y Cyngor oedd i statws Athro Siartredig fod ar gael i bob athro yng Nghymru, yn amodol ar y meini prawf ar gyfer cymryd rhan. Byddai'n trafod ariannu'r rhaglen brif-ffrwd gydag ADEW yn unol â chais y Gweinidog. Rhoddwyd gwybod hefyd i'r aelodau bod y swyddogion wedi llwyddo i gynyddu nifer y lleoedd i ymgeiswyr ar rai o'r modiwlau o'i chymharu â'r nifer a gynigiwyd yn wreiddiol gan y darparwyr, a hynny heb gost ychwanegol.

11.10 Mynegodd un aelod ei siom na fyddai'r llwybr achredu ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd y Prif Weithredwr y sylw ac aeth ymlaen i ddweud ei bod yn anffodus na chafwyd ond un cais ar gyfer y llwybr achredu. Fodd bynnag, bwriedid darparu asesu trwy gyfrwng y Gymraeg a byddai'r swyddogion yn ymdrin ymhellach â hyn. Tynnodd Hayden Llewellyn sylw at y modiwl *Hunanwerthuso a Myfyrio a Chynllunio Datblygiad Proffesiynol* a gâi ei ddarparu gan SWAMWAC (Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru) a oedd ar gael yn ddwyieithog. Dywedodd yr aelod y byddai angen i destun y ddogfen gael ei wneud yn gliriach er mwyn nodi pa rannau'n union a oedd ar gael yn ddwyieithog. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai camau gweithredu'n cael eu cymryd ar hyn.

11.11 Aeth yr aelodau ymlaen i drafod y gwerthuso annibynnol a gynigiwyd. Byddai'r ymarfer yn dechrau ym mis Mawrth 2008 ac yn rhedeg ochr yn ochr â rhai o fodiwlau'r cynllun peilot, gan alluogi'r gwerthuso i gynnig cyfraniad i fodiwlau diweddarach.

11.12 Tynnodd aelod arall sylw at fwlch posibl rhwng sicrhau bod gwasanaethau ymgynghorol addysgol yn llwyr ymwybodol o ddatblygiad y rhaglen a sicrhau ymgynghori'n llawn â'r fath grwpiau fel bod pawb yn ymroi'n llwyr iddi. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr AALlau'n cymryd rhan amlwg mewn darparu modiwlau'r rhaglen ac y byddai trafodaethau helaeth â'r holl bartïon yn digwydd yn ystod 2007-09. Roedd Hayden Llewellyn wedi rhoi cyflwyniad at ddatblygiad y rhaglen Athro Siartredig i gyfarfod o Is-grŵp Sicrhau Ansawdd ADEW ar 29ain Mehefin 2007 ac roedd wedi derbyn gwahoddiad i gyflwyno adroddiad arall yn ystod y cyfnod peilot.

Trefniadau arfaethedig llywio'r rhaglen Athro Siartredig

11.13 Gwahoddwyd yr aelodau i ystyried yr argymhelliad y dylai'r Pwyllgor Polisi fod yn gyfrifol am lywio'r rhaglen beilot Athro Siartredig. Lluniwyd yr argymhelliad oherwydd y teimlid mai ychydig o fudd a ddeuai o sefydlu grŵp cyfeirio allanol ychwanegol, gan mai gan y Pwyllgor Polisi y bu gwaith y Cyngor i ddatblygu'r Fframwaith Datblygiad Proffesiynol hyd yn hyn ac roedd y ffiniau eisoes wedi'u gosod. Roedd mecanweithiau llywio ychwanegol yn bodoli ar ffurf adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cynulliad Cymru, yr ymarfer gwerthuso gan sefydliad annibynnol ac adroddiadau yn y dyfodol i'r Cyngor, a rhoddwyd manylion amdanynt er gwybodaeth i'r aelodau.

11.14 Roedd yr aelodau'n fodlon cytuno â'r argymhelliad.

Cais am Siarter Frenhinol:

11.15 Dywedodd y Prif Weithredwr fod y cais anffurfiol wedi cael ei wneud ar 25ain Mai 2007 yn dilyn y canllawiau a nodwyd ar wefan y Cyfrin Gyngor. Disgwylid i'r broses gymryd hyd at ddwy flynedd i'w chwblhau.

Adroddiad llafar ar yr ymgynghoriad ar Gofnodi a Hunan-fyfyrio (llinyn 3) a Sicrhau Ansawdd Darparwyr (llinyn 4):

11.16 Roedd y Cyngor wedi cyhoeddi ei ymgynghoriad ar linynnau 3 a 4 ei Fframwaith Datblygiad Proffesiynol ar 16eg Ebrill 2007. Roedd wedi cau ar 15fed Mehefin 2007. Anfonwyd Crynodeb Gweithredol cywasg i bob athro cofrestredig ar ddiwedd mis Ebrill 2007 er gwybodaeth.

11.17 Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr aelodau y câi adroddiad ar y pedwar seminar ymgynghori llwyddiannus ei roi i'r aelodau cyn bo hir. Fodd bynnag, roedd cynigion y Cyngor wedi cael cryn gefnogaeth. Yn benodol, rhoddwyd derbyniad da i'r syniad o ddarparu portffolio electronig ar gyfer cofnodi a myfyrio ym maes datblygiad proffesiynol. Roedd Cadeirydd y Cyngor wedi cadeirio'r seminar olaf a chanmolodd y swyddogion am safon y deunyddiau a ddefnyddiwyd yn y seminarau. Ymddangosai fod y rhain wedi helpu i ddylanwadu ar farn y bobl fu'n bresennol.

11.18 Ar yr adeg hon gofynnodd un aelod am i aelodau gael gwybod y dyddiadau a'r lleoliadau pan gâi seminarau eu cynllunio yn y dyfodol. Cytunwyd i wneud hyn.

11.19 Esboniodd y Prif Weithredwr, ar ôl i'r adroddiad ar yr ymarfer ymgynghori gael ei roi i'r aelodau, y byddai swyddogion yn llunio'r cyngor a oedd i gael ei roi i'r Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg. Cynigiwyd y gallai'r Pwyllgor Polisi gymeradwyo drafft diwygiedig yn ei gyfarfod ar 19eg Medi 2007 ac y gellid estyn gwahoddiad i'r holl aelodau fod yn bresennol. Cynigiwyd dewis arall, sef gohirio'r penderfyniad hyd gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd. Fodd bynnag, roedd yr aelodau'n fodlon ar y cynnig cychwynnol, gan y cytunwyd y byddai cyfansoddiad y Cyngor yn y cyfarfod ar 9fed Tachwedd wedi newid yn dilyn y broses enwebu a'i bod yn well i'r aelodau a oedd wedi ymwneud â'r Fframwaith o'r dechrau gwblhau'r cyngor. Câi gwahoddiad i'r holl aelodau ddod i gyfarfod y Pwyllgor Polisi ei estyn i bob aelod maes o law.

12. Adroddiad ar Gyllido Sefydlu a DPC (GTCW 3707)

Sefydlu:

12.1 Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon)* a gyflwynodd y papur hwn. Atgoffodd yr aelodau fod y Cyngor wedi cymryd cyfrifoldeb am weinyddu ariannu Sefydlu a DPC yng Nghymru o 1af Medi 2006.

12.2 Yn unol â'r trefniadau a nodwyd yn y ddogfen "*Cyrchu Cyllid ar gyfer Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar",* dechreuodd AALlau gyflwyno canlyniadau Sefydlu ar gyfer y tymor a ddeuai i ben adeg Pasg 2007 ym mis Ionawr 2007. Yng nghyfarfod y Cyngor ar 7fed Chwefror 2007, tynnodd y swyddogion sylw'r aelodau at yr oedi a gafwyd wrth dderbyn y canlyniadau hyn, a oedd wedi cael effaith andwyol, mewn nifer fach o achosion, ar anfon arian i ysgolion. Dywedodd Hayden Llewellyn fod y swyddogion wedi cydweithio'n agos â'r AALlau, ac o ganlyniad roedd y modd y cyflwynwyd y canlyniadau yn yr ail dymor wedi gwella'n fawr. Roedd hyn wedi galluogi'r swyddogion i brosesu ac anfon taliadau tymor y Pasg i ysgolion cryn dipyn o flaen yr amserlen o ugain diwrnod gwaith a nodwyd yn y ddogfen gyfarwyddyd.

12.3 Fodd bynnag, cododd y problemau a gafwyd ynghynt unwaith eto yn nhymor yr haf, gan olygu na allai'r Cyngor anfon nifer fach o daliadau i ysgolion. Y rhain oedd, lle'r oedd nifer o athrawon newydd gymhwyso a oedd wedi cwblhau tymor o sefydlu heb gael eu cofrestru; lle bu'n anodd cael gwybodaeth gan yr AALlau am rai athrawon a oedd wedi cychwyn Sefydlu o dan drefniadau blaenorol yr AALlau/Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran lefel yr arian dyledus, a bu oedi wrth i ysgolion gyflwyno cofnodion Asesu Sefydlu i'w AALlau, gan olygu bod y ffurflenni a gyflwynwyd i'r Cyngor yn anghyflawn.

12.4 Wedi dweud hyn, hyd yma anfonwyd £1.4 miliwn i ysgolion yng Nghymru ym mhob un o'r tymhorau a ddaeth i ben yn y flwyddyn ysgol 2006/07.

12.5 Cynhaliwyd trafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 5ed Mehefin 2007 a arweiniodd at argymell gwneud newid i'r broses weinyddu a fyddai'n tynnu'r AALlau o'r system ariannu. Awgrymwyd y byddai ysgolion yn rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r Cyngor am bobl a oedd wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu'n llwyddiannus. Roedd paragraffau deg ac un ar ddeg o'r papur yn nodi manteision ac anfanteision y fath newid a dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd digon o amser ar yr adeg honno i wneud newidiadau mewn pryd am y flwyddyn academaidd newydd yn dechrau ym mis Medi 2007. Ar y sail hon, cynigiwyd cyflwyno rhagor o adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19eg Medi 2007 ac i'r Cyngor ar 9fed Tachwedd 2007 i'w trafod ymhellach. Pe bai'r Cyngor yn barnu wedyn y dylid newid ei fethodoleg ariannu, gallai newidiadau ddod i rym o fis Medi 2008 ymlaen.

12.6 Nododd un aelod fod pobl yn profi rhywfaint o rwystredigaethau ond roedd yn falch mai dim ond mewn nifer fach o achosion yr oedd yna oedi. Teimlai y gallai rhywfaint o ddryswch godi'n ddigon naturiol lle'r oedd tri sefydliad yn cydweithio, pob un â rhan i'w chwarae yn y broses gyfan, a bod gohebiaeth gan y Cyngor yn rhoi canllawiau'n bwysig. Cytunwyd y dylid rhoi mwy o amser i fonitro'r broses yn fanwl ac y byddai'r aelodau'n aros am ragor o adroddiadau ym mis Medi a mis Tachwedd.

<u>DPC:</u>

12.7 Roedd y Cyngor wedi cymryd cyfrifoldeb am weinyddu ariannu DPC i athrawon yng Nghymru ers 1af Medi 2006. Roedd nifer o athrawon wedi cwblhau eu DPC ers 1af Medi 2006 a rhoddwyd adroddiad i'r aelodau yn Atodiad C y papur. Ym mhob achos, roedd y Cyngor wedi rhyddhau'r arian i'r ysgolion cyn pen ugain diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr hysbysiad.

12.8 Dywedodd Hayden Llewellyn fod 1,600 o athrawon wedi cwblhau gweithgareddau DPC ac y byddai'r rhan fwyaf o'r taliadau cyfredol i ysgolion wedi cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Medi 2007.

12.9 Rhagwelwyd na fyddai pob athro'n defnyddio'r cwbl o'r £1,000 y flwyddyn yr oedd ganddo hawl iddo ac efallai na fyddai nifer fach o athrawon yn hawlio'u harian o gwbl. Fodd bynnag, gwnaed dadansoddiad am y tro cyntaf o'r mathau o weithgareddau yr oedd yr arian wedi cael ei ddefnyddio ar eu cyfer. Teimlai'r swyddogion fod y gweithgareddau y cafwyd gwybod amdanynt wedi bod yn fwy priodol nag a ddisgwylid yn wreiddiol.

12.10 Cyflwynwyd y dadansoddiad i swyddogion y Cynulliad ar 15fedMehefin 2007. Cadarnhaodd y swyddogion bod y gwariant a ragwelwyd mewn meysydd a farnwyd yn dderbyniol, at ei gilydd. Fodd bynnag, cytunwyd y dylid defnyddio'r canfyddiadau i atgyfnerthu'r canllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i athrawon ac ysgolion yn y *Llawlyfr Sefydlu a Datblygu Proffesiynol Cynnar* ac yn llyfryn CyngACC "*Cyrchu Cyllid ar gyfer Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar"* ynglŷn â sut y dylid gwario arian DPC.

12.11 Yn olaf, dywedodd Hayden Llewellyn wrth yr aelodau y câi astudiaethau achos ar weithgareddau enghreifftiol eu cynhyrchu i'w cyhoeddi.

12.12 Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau am yr adroddiad.

12.13 Roedd un aelod yn awyddus i'r Cyngor adborthi canlyniadau'r dadansoddiad yn uniongyrchol i ysgolion. Teimlai'r Prif Weithredwr y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru efallai eisiau arwain ar hyn er y byddai'r Cyngor hefyd mewn sefyllfa dda i wneud hynny. Gallai adroddiad ar y cyd fod yn bosibl hefyd.

12.14 Teimlai aelod arall ei bod yn bwysig tynnu sylw at yr athrawon a oedd heb gymryd yr arian yr oedd ganddynt hawl iddo ac efallai bod y Cyngor mewn sefyllfa i ganfod pam yr oedd hyn wedi digwydd.

12.15 Tynnodd y Dirprwy Brif Weithredwr sylw at y cynlluniau a gyflwynwyd gan athrawon ond nas cymeradwywyd gan y Cyngor am nad oeddent yn bodloni'r meini prawf gofynnol.

12.16 Roedd yr aelodau'r fodlon ar yr adroddiad ac i'r swyddogion fynegi barn gref i swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda golwg ar wella'r canllawiau ar y ffordd orau i ddefnyddio'r arian, dosbarthu enghreifftiau safonol o weithgareddau a sicrhau y byddai'r nifer fwyaf posibl yn hawlio'r arian.

12.17 Yn olaf, llongyfarchodd un aelod swyddogion y Cyngor am sicrhau bod arian DPC yn hygyrch i athrawon yng Nghymru.

13. Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol 2008-11 (GTCW 38/07)

13.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, tynnodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) sylw'r aelodau at lefel yr arian a ddyrannwyd ac a hawliwyd gan athrawon yn rhaglen ariannu'r flwyddyn gyfredol 2007-08 a'r cynigion ar gyfer gweinyddu'r rhaglen dair-blynedd nesaf 2008-11.

<u>Rhaglen Ariannu Datblygiad Proffesiynol 2007-08:</u>

13.2 Roedd £3 miliwn ar gael i'r Cyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at DPP athrawon ar gyfer y flwyddyn ariannu 2007-08 fel rhan o linell gyllideb dair blynedd.

13.3 Dywedodd Hayden Llewellyn wrth yr aelodau y dyrannwyd £1.28 miliwn i athrawon yng Nghymru hyd yn hyn. Roedd hyn yn golygu bod y Cyngor yn debygol o ddyrannu holl arian Llywodraeth Cynulliad Cymru.

13.4 Atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor wedi nodi yn ei Gynllun Gweithredol ar gyfer 2007-08 yr amcan i "*gydgysylltu gweithgareddau a fydd yn annog a galluogi athrawon unigol i ledaenu canlyniadau gweithgareddau datblygiad proffesiynol".* Dyrannwyd £100,000. Esboniodd fod pedwar digwyddiad lledaenu ar y cyd gydag AALlau wedi digwydd a bod saith arall yn yr arfaeth. Roedd digwyddiadau ar y cyd yn cael eu cynllunio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill gan gynnwys Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r Ardd Fotaneg Genedlaethol.

13.5 Yn ddiweddarach cynigiwyd cynyddu'r swm ar gyfer gweithgareddau lledaenu i £200,000 a dywedwyd wrth yr aelodau bod swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymeradwyo'r ffigur hwn mewn egwyddor. Rhoddodd yr aelodau eu cymeradwyaeth i'r cynnydd.

<u>Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol 2008-11:</u>

13.6 Aeth Hayden Llewellyn ymlaen i roi disgrifiad byr i'r aelodau o'r newidiadau arfaethedig i'r rhaglen dair blynedd nesaf, a nodwyd yn llawn yn Atodiad B y papur. Gan symud trwy'r ddogfen drafod fesul pennawd, tynnodd sylw at y prif bwyntiau i'w trafod, sef, y byddai'r categorïau prosiect yn aros yr un peth; y byddai'r Bwrsari Grŵp yn cael ei brif-ffrydio; y byddai cyfraddau talu am staff cyflenwi'n cael eu codi'n unol â chwyddiant ond ar lefel ychydig yn is nag a gynigiwyd ar y dechrau, ac y byddai ymgeiswyr yn gymwys i gael y Bwrsari Grŵp a bwrsarïau unigol (ac eithrio cyfnodau sabothol).

13.7 Roedd yr aelodau'n fodlon ar y cynigion ac aethant ymlaen i drafod cydbwyso cynorthwyo cynifer o athrawon ag sy'n bosibl â'u DPP gydag ad-dalu costau staff cyflenwi ar lefel dderbyniol. Teimlai un aelod y dylai'r Cyngor fynegi'r gwerth yr oedd DPP o ansawdd da yn ei roi i'r proffesiwn. Teimlai y dylid rhoi'r ddadl dros ansawdd yn hytrach na maint.

13.8 Aeth Hayden Llewellyn ymlaen i esbonio y cynigiwyd sefydlu cyfradd cyflenwi i staff nad oeddent yn athrawon a fyddai'n ad-dalu ysgolion am gostau cyflogi goruchwylwyr a chynorthwywyr cymorth. Hefyd awgrymwyd gwelliannau a sawl eglurhad i'r llyfryn canllawiau.

13.9 Dywedwyd wrth yr aelodau y cynigwyd rhai newidiadau i'r ffurflenni gwerthuso blynyddol, a fyddai o hyd yn bodloni'r gofynion a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn ond yn lleihau'r baich ar athrawon o ran amser. Câi gwybodaeth a gadwyd ar Gofrestr y Cyngor o Athrawon Cymwys ei defnyddio i gynorthwyo â'r broses. Hefyd cynigiwyd darparu ffurflen gais ar-lein, a gâi ei hargraffu i'r pennaeth ei llofnodi i'w hawdurdodi.

13.11 Roedd yr aelodau'n fodlon y dylai'r amser y gallai fod angen i athrawon ei dreulio'n llenwi ffurflenni gael ei leihau ac y câi athrawon eu hannog yn fwy byth i ymgeisio. Wedyn bu trafodaeth ynglŷn ag annog athrawon o'r Gogledd i ymgeisio am arian DPP. Roedd yn glir o'r adroddiad nad oedd y Cyngor yn cyrraedd nifer o athrawon er gwaethaf ei ymdrechion i wneud hynny. Sicrhaodd y Prif Weithredwr yr aelodau bod cysylltu ag AALlau yn y Gogledd yn parhau ac yr aed ati i gyfathrebu trwy'r wasg yn y Gogledd. Dywedodd ei bod yn anffodus bod cyfarfod gyda Phrif Olygydd y Wrexham Evening Leader ar gyfer diwrnod y cyfarfod wedi cael ei ganslo. Roedd yr erthyglau a roddai sylw i weithgareddau DPP llwyddiannus yng Nghymru a ariannwyd gan CyngACC, a oedd wedi ymddangos fel atodiad i'r Western Mail, hefyd wedi cael eu gosod yn y Daily Post. Byddai'r swyddogion yn parhau i weithio ar feithrin nifer yr athrawon yn y Gogledd a oedd yn cyflawni DPP.

13.12 Cytunwyd â'r cynnig i barhau â'r Grwpiau Ymgynghorol DPP ar yr amod y câi'r aelodaeth ei diwygio bob tair blynedd, gyda'r newid nesaf yn 2008. Byddai'r aelodau'n cynnwys enwebeion o'r AALlau, SAU, undebau a sefydliadau addysgol eraill.

13.13 Yn olaf, cymeradwyodd yr aelodau gomisiynu astudiaeth arhydol annibynnol tua diwedd cyfnod y rhaglen 2008-11. Câi hon ei gwneud yng nghyd-destun amgylchedd yr ysgol; dyheadau'r ymgeiswyr o ran eu gyrfa; lefel y cymorth oedd ar gael yn yr ysgol ac yn lleol; eu hymrwymiad i DPP ; a phrofiad, gwybodaeth bresennol a hyfforddiant yr ymgeisydd.

13.14 Roedd yr aelodau'n fodlon a rhoesant eu cymeradwyaeth i'r newidiadau i'r rhaglen ar gyfer 2008-11.

14. Safonau Proffesiynol – cyflwyniad cyhoeddus o adroddiadau gwaith achos (GTCW 39/07)

14.1 Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) gyflwynodd y papur hwn, a oedd yn nodi'r cynigion ar gyfer cyflwyniad cyhoeddus yn y dyfodol o waith achos y Cyngor ar safonau proffesiynol.

14.2 Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Hydref 2006, dywedwyd wrth yr aelodau y gallai Adroddiad Gwaith Achos Safonau Proffesiynol y Cyngor fod yn destun cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yn dilyn trafodaethau yn y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cofrestru, argymhellodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 7fed Chwefror 2007 y dylai gydymffurfio ag ysbryd y Ddeddf trwy gyhoeddi gwybodaeth fanylach am ei waith ar safonau proffesiynol gan fod hyn yn cynnig cyfle i rannu gyda'r proffesiwn y materion a'r ystyriaethau a godwyd.

14.3 Dywedodd Hayden Llewellyn fod y Cyngor wedi ceisio cyngor cyfreithiol ar y manylion penodol a gâi eu cyhoeddi a bod hyn wedi cael ei adrodd i'r Pwyllgor Cofrestru. Y cynigion oedd y câi'r wybodaeth a gâi ei chynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor ei ehangu i gynnwys 'adroddiadau' addasrwydd; y câi dull fesul cam ei ddefnyddio wrth gyhoeddi manylion cyfrifoldebau'r Cyngor ym maes safonau proffesiynol yng nghyfnodolyn y Cyngor *Addysgu Cymru* ac wedyn y câi disgrifiadau dienw eu cyhoeddi'n raddol o amrywiaeth o achosion sydd wedi arwain at orchymyn disgyblu, barnu ymgeisydd yn anaddas i gofrestru neu athro'n methu wrth wneud apêl Sefydlu; cyhoeddi rhagor o adroddiadau dienw yn *Addysgu Cymru* bob blwyddyn; a chadw'r Adroddiad Gwaith Achos Safonau Proffesiynol ar ei ffurf bresennol fel rhan o fusnes preifat y Cyngor.

14.4 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau bod y cynigion yr un peth â threfniadau'r cyrff rheoleiddio eraill. Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

14.5 Roedd yr aelodau'r fodlon ar y cynigion fel yr oeddent ac yn cytuno y dylid bwrw ymlaen â hwy.

15. Ethol aelodau sy'n Athrawon i'r Cyngor 2008 (GTCW 40/07)

15.1 Dywedodd y Prif Weithredwr yn fyr bod contract wedi cael ei ddyfarnu i Electoral Reform Services (ERS) yn dilyn un cais tendr, ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Ethol yn ei gyfarfod ar 3ydd Mai 2007. Byddai ERS yn goruchwylio cynnal etholiadau 2008 ac yn gweithredu fel archwiliwr annibynnol.

15.2 Gwahoddwyd yr aelodau i ystyried a chymeradwyo penodi Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) yn Swyddog Canlyniadau. Roedd wedi gwneud y gwaith hwn yn etholiadau'r Cyngor yn 2004. Roedd yr aelodau'r fodlon penodi Hayden Llewellyn i swydd Swyddog Canlyniadau.

15.3 Gofynnwyd hefyd i'r aelodau ystyried darparu ffordd ddiogel o bleidleisio ar lein. Câi papurau pleidleisio eu hanfon gyda rhif adnabod a chyfrinair personol unigryw i hwyluso pleidleisio diogel dros y rhyngrwyd. Byddai ERS yn cymryd cyfrifoldeb am sefydlu'r wefan, a gâi ei chynllunio i'w defnyddio gan neb ond athrawon cofrestredig ar restr etholwyr CyngACC. Câi'r rhifau adnabod eu cynhyrchu ar hap ac ni fyddai modd eu holrhain yn ôl i unigolion. Fodd bynnag, byddent yn cael eu defnyddio i sicrhau na fyddai unrhyw athro'n pleidleisio ddwywaith, gan gynnwys trwy'r post ac ar lein.

15.4 Esboniodd y Prif Weithredwr fod CyngAC yr Alban a CyngAC Lloegr wedi cynnig pleidleisio ar lein yn eu cynlluniau etholiadol blaenorol. Câi system CyngACC ar y we ei chynnig yn ddwyieithog yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.

15.5 Cwestiynodd un aelod ganran yr athrawon a oedd wedi pleidleisio yn etholiadau blaenorol y Cyngor yn 2004. Dywedodd y swyddogion mai rhwng 18% a 21% oedd y ffigur, gan ddibynnu ar y categori. Roedd ERS wedi dweud bod hwn yn ymateb da o'i gymharu ag etholiadau ar gyfer cyrff tebyg.

15.6 Bu trafodaeth am fanteision ac anfanteision rhoi'r dewis ychwanegol ar gyfer pleidleisio. Gofynnwyd am wybodaeth ynglŷn ag a oedd darparu pleidleisio dros y we gan gyrff rheoleiddio eraill wedi creu cynnydd yn y nifer a bleidleisiodd. Dywedodd Hayden Llewellyn fod yna rywfaint o dystiolaeth amrywiol ond, ar y cyfan, y credid bod hyn yn cynnig anogaeth gadarnhaol a'i fod yn annhebyg o fod yn andwyol. Roedd hefyd yn flaengar a chredid ei bod yn fwy tebygol y byddai'n well gan athrawon newydd ddefnyddio dull ar-lein. Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd na fyddai cyflwyno hyn yn achosi unrhyw oedi i'r amserlen a gymeradwywyd eisoes. Rhoddwyd sicrwydd ar hyn.

15.7 Hefyd ystyriwyd y gost fach o £3,000 mewn perthynas â'r nifer o bleidleisiau ychwanegol y gellid eu cael o bosibl. Yn y diwedd, cytunodd yr aelodau, wrth edrych i'r dyfodol, y dylai'r Cyngor fuddsoddi mewn annog athrawon yng Nghymru i gymryd rhan yn yr etholiadau i'w corff rheoleiddio trwy ddarparu pleidleisio ar-lein yn ei Gynllun Etholiadau 2008.

16. Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Drafft (GTCW 41/07)

16.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw at y trefniadau newydd ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol, gyda chyfrifon cryno, a'r Cyfrifon Blynyddol fel dwy ddogfen ar wahân.

16.2 Karen Evans (*Rheolwr Polisi a Chynllunio*) gyflwynodd rhan gyntaf y papur, gan roi gwybod i'r aelodau'n fyr bod y sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 5ed Mehefin 2007 wedi cael eu cynnwys. Gwahoddwyd yr aelodau i roi rhagor o newidiadau trwy dudalennau anodedig ar ddiwedd y cyfarfod.

16.3 Gan symud trwy'r ddogfen fesul amcan, roedd yr aelodau'n fodlon a rhoesant eu cymeradwyaeth yn amodol ar unrhyw newidiadau ysgrifenedig a gâi eu rhoi

16.4 Julia Evans *(Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)* a gyflwynodd y Cyfrifon Blynyddol anarchwiliedig drafft am y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2007; roedd y papur ar gyfer y rhain wedi cael ei osod gerbron. Tynnwyd sylw'r aelodau at y diffyg-yn-y-flwyddyn a oedd yn sylweddol uwch, sef £185,000. Roedd hyn wedi digwydd oherwydd bod y Cyngor yn gwneud llawer mwy o waith achos safonau proffesiynol. Roedd hyn gan fwyaf oherwydd bod nifer o achosion troseddol wedi cronni yn y DfES ac wedi cael eu hatgyfeirio i'r Cyngor yn y flwyddyn flaenorol. Y ffactor arall a gyfrannodd at y gwariant uwch yn y maes hwn oedd y penderfyniad i gyflwyno gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) fel maen prawf ar gyfer penderfynu addasrwydd person sy'n gwneud cais i gofrestru. Roedd hyn wedi cynyddu'n sylweddol nifer y Pwyllgorau Ymchwilio ac Addasrwydd a gynhaliwyd. O gyllideb o £113,000, gwariwyd £313,000, sy'n adlewyrchu cost uwch cyngor cyfreithiol a llogi lleoliadau, ymysg costau eraill.

16.5 Rhoddwyd gwybod hefyd i'r aelodau y byddai Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn dechrau archwilio'r Cyngor ar 16eg Gorffennaf 2007.

16.6 Gan dynnu sylw at y Fantolen fel yr oedd ar 31ain Mawrth 2007, a geir ar dudalen 17 y papur, tynnodd Julia Evans sylw at y *Dyledwyr a Rhagdaliadau* (£1,650) a oedd yn cyfeirio at grantiau Sefydlu a DPC a'r *Credydwyr: Symiau sy'n daladwy cyn pen blwyddyn* (-£2,972) a oedd yn cyfeirio at hawliad am dreuliau cyfreithiol a gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor yn hwyr.

16.7 O dan baragraff 14 Atodlen 1 y Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch, roedd yn ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad o gyfrifon ariannol, wedi'i baratoi'n unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon, a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn 31ain Awst 2007.

16.8 Hefyd, byddai crynodeb o'r cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2007, tua phedair tudalen o hyd, yn rhan o *Adroddiad Blynyddol* y Cyngor.

16.9 Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan yr aelodau. Roedd yr aelodau'n fodlon cymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol.

17. Unrhyw fusnes arall

17.1 Nid oedd unrhyw fusnes arall.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn digwydd ddydd Gwener 9fed Tachwedd 2007
yn
ESIS, Trefforest – ger Caerdydd